DULL DIOGEL:

# GWIRIADAU AGOR A CHAU

**Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch staff yn cyflawni gwiriadau penodol bob tro y byddwch yn agor a chau. Mae hyn yn eich helpu i gynnal y safonau sylfaenol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod eich busnes yn paratoi bwyd yn ddiogel.**

## GWIRIADAU AGOR

| |
|---|
| **Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddechrau'r dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.** |
| Mae eich offer arddangos bwyd oer, eich oergelloedd a'ch rhewgelloedd yn gweithio'n iawn. |
| Mae eich offer eraill (e.e. popty/peiriant cadw bwyd yn boeth) yn gweithio'n iawn. |
| Mae staff yn iach i weithio ac yn gwisgo dillad gwaith glân. |
| Mae ardaloedd paratoi bwyd yn lân ac wedi'u diheintio (arwynebau gwaith, offer, cyfarpar ac ati) |
| Nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch plâu mewn unrhyw ardal. |
| Mae digon o ddeunyddiau golchi dwylo a glanhau ar gael (sebon, tywelion papur, glanweithydd ac ati). |
| Mae dŵr tap poeth ar gael ym mhob sinc a basn golchi dwylo. |
| Mae'r prôb tymheredd yn gweithio'n iawn ac mae wipes i lanhau'r prôb ar gael. |
| Mae'r wybodaeth am alergenau yn gywir ar gyfer pob eitem sydd ar werth. |
| Mae'r siop yn 'addas i fasnachu', h.y. glân a thaclus, silffoedd wedi'u stocio ac ati. |
| |
| |
| |

## GWIRIADAU CAU

| |
|---|
| **Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddiwedd y dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.** |
| Rydych wedi tynnu unrhyw fwyd sydd ar ei ddyddiad 'defnyddio erbyn', neu unrhyw fwyd sydd wedi'i ddifrodi neu sy'n anaddas (e.e. bwyd sydd wedi llwydo) oddi ar y silffoedd. |
| Rydych wedi taflu unrhyw fwyd sydd wedi'i dynnu oddi ar y silffoedd yn gywir neu wedi'i labelu fel 'ddim i'w werthu' a'i gadw mewn ardal ar wahân (os yw'n cael ei ddychwelyd i'r cyflenwr). |
| Rydych chi wedi gorchuddio pob darn o fwyd, wedi labelu'r bwyd a'i roi yn yr oergell/y rhewgell (os oes angen). |
| Rydych chi wedi glanhau a diheintio offer glanhau budr neu wedi'u taflu i ffwrdd. |
| Rydych chi wedi cael gwared ar wastraff ac wedi gosod bagiau newydd yn y biniau. |
| Rydych chi wedi glanhau a diheintio ardaloedd paratoi bwyd (arwynebau gwaith, offer, cyfarpar. ac ati). |
| Rydych chi wedi brwsio a glanhau'r lloriau. |
| Rydych chi wedi cofnodi'r gwiriadau 'Profi'. |
| |
| |
| |

**Caiff y gwiriadau agor a chau eu rhestru yn y dyddiadur hefyd.**